

Wrth orsedd y Jehofa mawr

Caneuon Ffydd: Rhif 69

Wrth orsedd y Jehofa mawr
plyged trigolion byd i lawr;
gwybydded pawb mai ef sy Dduw,
yr hwn sy'n lladd a gwneud yn fyw.

A'i ddwyfol nerth, fe'n gwnaeth ei hun
o bridd y ddaear ar ei lun;
er in, fel defaid, grwydro'n ffôl,
i'w gorlan ef a'n dug yn ôl.

I'th byrth â diolch-gân ni awn,
cyfodi'n llef i'r nef a wnawn;
doed pobloedd o bob iaith sy'n bod
i lenwi'r pyrth â llafar glod.

D'arglwyddiaeth di sy dros y byd,
tragwyddol yw dy gariad drud;
saif dy wirionedd heb osgoi
pan beidio'r haul a'r lloer â throi.

ISAAC WATTS, 1674–1748
cyf. DAFYDD JONES, 1711–77

MYFYRDOD

Adleisio Salm 100 a wna'r emyn hwn, y Salm fer honno sy'n ein cynghori i foliannu Duw yn llawen ar gân am ei fawredd a'i allu. Bu llawer yn wir o adleisio ar y Salm yn ein hemynau, ac os trown y tudalennau at rif 75 yn *Caneuon Ffydd*, fe'i gwelwn eto fel y mydryddodd Edmwnd Prys hi ganrif a mwy ynghynt, ac yna at rif 58 i weld addasiad mwy diweddar fyth ohoni. Ond cyfieithu efelychiad Isaac Watts a wnaeth Dafydd Jones yma eto (gweler rhif 18). Priodolwyd hyn yn wreiddiol i John Hughes, Aberhonddu, a gyfieithodd lawer o emynau i'r Gymraeg (gweler rhif 10), ond ef,

mae'n bur debyg, wrth ddiwygio a pharatoi emyn Dafydd Jones ar gyfer ei gyhoeddi ym 1802, a roddodd y cwpled cyntaf i'r emyn wrth gyfieithu'r cwpled cyntaf a ychwanegwyd yn Saesneg gan John Wesley at emyn Isaac Watts, sef:

‘Before Jehovah’s awful throne,
Ye nations bow with sacred joy.’

Nid peth newydd o gwbl, felly, ydy cyfieithu emynau, ac mae amryw ohonyn nhw, fel yma, wedi goddef llawer o gyfnewidiadau cyn ein cyrraedd ni yn eu ffurfiau presennol.

Cofiaf dderbyn cyngor un tro: ‘Os byth y byddi di heb wybod beth i’w ddarllen a beth i’w weddio, yna darllena Salm 100 a gweddïa Weddi’r Arglwydd’. Bydd cofio cyngor felly yn ein hatgoffa nad ydym ni byth heb wybod i ble i droi yn y Beibl, a’r troi hwnnw i gychwyn yn siŵr o arwain at awydd i ddarllen ac i weddio ymhellach. Pan fydd pypmpiau dŵr yn sychu, rhaid cael peth dŵr i gychwyn er mwyn mynd trwy’r peipiau ac i’r pwmp gael codi rhagor o ddŵr. Dyma Salm dda, felly, i gael y pypmpiau mawl i godi dŵr eto ar ôl cyfnod sych.

Mae’r em hon o Salm, sydd yn sylfaen i’n hemyn yma, yn rhoi’r allwedd inni i fywyd llawn yn yr Ysbryd: dod i bresenoldeb Duw gyda mawl grymus, sydd yn cynnwys canu, llawenydd, diolchgarwch ac addoliad: ‘I’th byrth â diolch-gân ni awn’. Byddai agosáu at Dduw heb agwedd o’r fath fel torri i mewn yn rhyfygus i byrth Brenin yr holl fydysawd. Gafaela’r emynydd yn y gwirionedd hefyd bod Duw yn Dduw digyfnewid ym mhob oes: ‘ei drugaredd sydd yn dragywydd; a’i wirionedd hyd genhedlaeth a chenedlaeth’ ebe’r Salmydd ar ddiwedd ei Salm (BWM), a chawn y profiad o gael ein codi uwchlaw hualau amser i foli’r Duw tragwyddol hwn pan ddown at glo’r emyn fel y gwelwyd e’n wreiddiol o law Dafydd Jones, a’i glywed yn datgan:

‘Saif dy Wirionedd byth heb ’sgoi
Pan beidio’r Haul a’r lleuad droi.’

GWEDDI

Diolchwn iti, Arglwydd Dduw, am gyfryngau fel y Salmau a’n hemynau ninnau i gael dy foliannu di am dy ddaioni, dy drugaredd a’th wirionedd sydd i gyd yn para byth. Diolch am iti agor pyrth y mawl i’r byd yn gyfan yn Iesu Grist dy Fab. Amen.